

## ❖ YR ADFENT - DISGWYL YN DAWEL

**Darlleniad: Eseia 52**

Da yw'r Arglwydd i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio. Y mae'n dda disgwyl yn dawel am iachawdwriaeth yr Arglwydd.

'Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael,  
galwch arno tra bydd yn agos.'

Arglwydd, plygwn ger dy fron gan dy gydnabod yn Arglwydd yr holl ddaear, yn Dduw goruwch y duwiau.

'Pa dduw ymhlith y duwiau  
Sydd debyg i'n Duw ni?  
Mae'n hoffi maddau'n beiau,  
Mae'n hoffi gwrando cri;'

Diolchwn i ti, O Arglwydd, ein bod yn cael mynediad i'th bresenoldeb am dy fod yn hoffi maddau beiau ac yn trugarhau wrthym er maint ein pechu i'th erbyn. Cyfaddefwn ger dy fron, Arglwydd, ein bod wedi pechu i'th erbyn mewn meddwl, gair a gweithred, ein bod wedi coleddu meddyliau annheilwng, wedi yngan geiriau heb ystyried y gofod a'r poen oedd yn eu dilyn, wedi gwneud pethau oedd yn dod ag anfri ar dy enw sanctaidd. Trugarha wrthym, O! Arglwydd.

'O'th flaen, O! Dduw, rwy'n dyfod  
gan sefyll o hir-bell;  
pechadur yw fy enw,  
ni feddaf enw gwell;  
trugaredd rwy'n ei cheisio,  
a'i cheisio eto wnafl,  
trugaredd imi dyro,  
rwy'n marw onis caf.'

Yn nhymor yr Adfent, cofiwn dy fod, O! Dduw, wedi dod i'r byd yn dy Fab, Iesu Grist, gan roi bywyd newydd i'th blant. Daethost â gobaith ac iachawdwriaeth gan eu cynnig yn rhad i bob un oedd yn barod i'w derbyn.

Cofiwn dy eni tlawd ym Methlehem i deulu cyffredin; rwynt yn gallu uniaethu â'r tlawd a'r cyffredin heddiw oherwydd i ti fod yn un ohonynt. Cynorthwya ni i allu cydymdeimlo â hwy a'u cynorthwyo yn dy enw.

Cofiwn i Iesu Grist gael ei demtio fel ninnau tra oedd ar y ddaear, ond iddo ef orchfygu pob temtasiwn gan fyw bywyd glân a pherffaith. Cynorthwya ni i bwysio arnat ti am nerth i orchfygu'r temtasiynau a ddaw i'n rhan.

Cofiwn gariad a thosturi Iesu tuag at yr anghenus a'r trallodus. Cynorthwya ni i fod yn gyfryngau yn dy law er mwyn i'th gariad a'th dosturi di lifo at bawb sydd mewn unrhyw angen, er mwyn iddynt dy weld ynom ni a rhoddi clod i ti. Cofiwn am dy aberth ar y Groes dros bob un ohonom. Cynorthwya ni i dderbyn yr aberth ac i gysegru ein bywyd i ti o'r newydd.

Tymor yr ymbaratoi at dy ailddyfodiad yw'r Adfent, yr ymbaratoi at yr amser pryd y byddi'n dyfod i'r byd i'w farnu. O wybod hyn, O! Dduw, gwna ni'n barod i blygu ger dy fron i geisio dy faddeuant a gofyn am dy ras i edifarhau. Cynorthwya ni i astudio dy Air ac i neilltuo amser i weddio, fel y gallwn ddod i adnabyddiaeth well ohonot fel unigolion.

Arglwydd, rydym yn disgwyl yn dawel am dy iachawdwriaeth fel y cawn fynediad i'th bresenoldeb pan fyddi'n dychwelyd i'r ddaear i gasglu dy blant ynghyd.

'O tyred i'm calon Iesu,  
Mae lle yn fy nghalon i.'

Cyflwynwn ein gweddïau yn enw ac yn haeddiant ein Gwarddwr, yr Arglwydd Iesu Grist. Amen.

**Menna Green**